Prawf llif unffordd 7 pecyn — Prawf trwyn yn unig


NHS
Test and Trace


# Eich canllaw cam wrth gam i ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf)

**Rhybudd** Peidiwch â chyfuno a chymysgu elfennau o becynnau prawf eraill

**Darllenwch y canllaw cyfan yn ofalus cyn dechrau.**
Efallai y bydd y prawf yma'n wahanol i brofion a ddefnyddioch yn flaenorol.

## Prawf trwyn yn unig




Mae'r cyfarwyddiadau yn ymwneud â ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf), cod cynnyrch: L031-118Y5 yn unig.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i brofi eich hun neu unigolyn arall am COVID-19, ac adrodd i'r GIG am y canlyniadau. Mae fersiynau mewn ieithoedd eraill gan gynnwys Cymraeg, ynghyd ag arddangosiadau fideo ar **gov.uk/covid19-self-test-help**

# Beth sydd angen i chi ei wneud

## Eich canllaw cam wrth gam

Mae ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn brawf cyflym ar gyfer canfod COVID-19 ble mae defnyddwyr yn cymryd sampl swab o'u trwyn.

Mae ar gyfer hunan-brawf a defnydd diagnostig *in vitro* yn unig.

Darllenwch trwy'r cyfarwyddiadau'n ofalus a dilyn y camau yn y drefn gywir.

## Pam ddylech chi wneud hunan-brawf

Mae'r pecyn hunan-brawf COVID-19 yma yn brawf swab ar gyfer y trwyn i wirio os ydych yn heintus. Gall roi gwybod i chi os oes gennych chi'r firws, hyd yn oed os nad oes gennych chi symptomau. Fodd bynnag, dylech ddilyn canllawiau cenedlaethol i wirio pa fath o brawf sy'n addas i chi.

## Yn y llyfryn hwn


| | |
|---|---|
| Beth sydd angen i chi ei wneud | 2 |
| Canllaw a Storio | 3 |
| Ynglŷn â'r prawf hwn | 4 |
| Paratoi eich ardal brawf | 5 |
| Gwiriwch gynnwys eich pecyn | 6 |
| Paratoi eich prawf | 7 |
| Gwneud prawf ar rywun arall | 8 |
| Cymryd eich sampl swab | 9 |
| Prosesu'r sampl swab | 10 |
| Darllen eich canlyniadau | 12 |
| Adrodd eich canlyniad | 14 |


Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5

# Canllaw a storio

| **Rhybudd** | Storiwch eich profion ar wahân i sicrhau nad ydych yn drysu’r elfennau. Ni fydd hylif o un math o brawf yn gweithio ar brawf arall. |
|---|---|

- Os ydych chi wedi tyllu’ch trwyn, tynnwch y darn cyn swabio.
- Os bydd eich trwyn yn gwaedu yn ystod swabio, stopiwch swabio. Ni ellir defnyddio'r swab a bydd angen i chi ddechrau eto.
- Nid yw’r cynnyrch wedi ei greu gyda latecs rwber naturiol. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gellid cyflwyno olion yn ystod y broses gludo neu drin.
- Peidiwch â bwyta, yfed nac ysmygu yn yr ardal ble mae’r sbesimenau neu brofion yn cael eu trin.
- Peidiwch â defnyddio’r prawf os yw wedi difrodi.
- Dylid gwaredu ar holl ddeunyddiau’r prawf a ddefnyddiwyd yn ddiogel yng ngwastraff y cartref.
- Golchwch eich dwylo'n drylwyr cyn ac wedi defnyddio.
- Peidiwch â defnyddio samplau sy'n cynnwys gwaed.
- Efallai y bydd angen cymorth gyda’r broses swabio a phrofi ar gyfer rhai gyda phroblemau dwylo a golwg.
- Peidiwch â defnyddio chwistrell trwyn am o leiaf 30 munud cyn casglu sbesimen swab o'r trwyn.

## Storio a thrin

- Storiwch y pecyn prawf yn ddigon pell oddi wrth blant ac anifeiliaid.
- Dylid storio’r pecyn prawf ar dymheredd rhwng 2 - 30 °C. PEIDIWCH Â’I REWI.
- Peidiwch â defnyddio’r prawf wedi’r dyddiad darfod a argraffwyd ar y pecyn sydd wedi selio.
- Dylid cyflawni prawf ar ystod tymheredd 15 - 30 °C.

**Gwaredu’ch pecyn profi yn ddiogel**.
Pan fyddwch wedi cwblhau eich prawf, rhowch yr holl eitemau o’r pecyn profi a ddefnyddiwyd yng ngwastraff cyffredinol y cartref. Golchwch eich dwylo’n drylwyr ar ôl gwaredu.

# Ynglŷn â'r prawf hwn

## Ar gyfer pwy mae'r prawf yma'n addas



**Oedolion 18 oed a throsodd**
Hunan-brofi ac adrodd, gyda chymorth os oes angen.



**Pobl ifanc rhwng 12 i 17 oed**
Hunan-brofi ac adrodd gyda chymorth oedolyn os oes angen. Gall yr oedolyn gyflawni'r prawf, fel fo angen.



**Plant**
Dylent gael eu profi gan oedolyn. Peidiwch â chynnal y prawf hwn os nad ydych yn teimlo'n hyderus yn cynnal y prawf ar blentyn.

## Os ydych chi'n arddangos symptomau COVID-19 newydd

Ewch i **nhs.uk/coronavirus** i gael y cyngor mwyaf cyfredol.

**Trefnwch ar gyfer y prawf cyfredol a argymhellir:**
ewch i **gov.uk/get-coronavirus-test** neu ffoniwch y ganolfan gyswllt cwsmeriaid trwy ddeialu **119**. Mae'r llinellau ar agor o 7am hyd 11pm bob dydd (am ddim i ffonio o linellau tir a ffonau symudol).

**Peidiwch ag oedi cyn gofyn am help os ydych yn poeni. Dilynwch eich greddf.**

**Rhybudd**




**Os ydych chi'n poeni am eich symptomau,** neu os bydd eich symptomau'n gwaethygu, cysylltwch â meddyg teulu, ymweld â gwasanaeth ar-lein **111** y GIG ar **111.nhs.uk** neu ffonio **111** i siarad â rhywun yn uniongyrchol.

Mewn argyfwng meddygol, ffoniwch **999** ar unwaith.

# Paratoi eich ardal brawf

**Byddwch angen:** amserydd fel oriawr, cloc neu ddyfais symudol, hancesi papur, glanhawr arwyneb, hylif diheintio dwylo neu sebon a dŵr cynnes.



1 Darllenwch y canllaw cyfarwyddyd hwn yn ofalus. Gwyliwch y fideo prawf swab ar-lein os ydych chi angen rhagor o gymorth: **gov.uk/covid19-self-test-help**



2 Yn syth cyn cychwyn y prawf, glanhewch a sychu arwyneb gwastad i roi'r pecyn profi arno.




3 Golchwch eich dwylo'n drylwyr am 20 eiliad, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.


Os ydych yn cynnal mwy nag un prawf, glanhewch yr arwyneb a golchwch eich dwylo eto rhwng pob prawf.


# Gwiriwch gynnwys eich pecyn

| **Rhybudd** | Peidiwch â chyfuno a chymysgu elfennau o becynnau prawf eraill |
|---|---|


## Yn eich blwch pecyn profi, fe ddylech weld:


| **1x** | **7x** | **7x** | **7x** | **7x** |
|---|---|---|---|---|
| Blwch gyda thwll daliwr tiwb byffer echdynnu | Bag Gwastraff | Swab untro y tu mewn i lapiad wedi'i selio | Casét Profi mewn pecyn wedi selio | Tiwb Byffer Echdynnu |









**Cyngor**




### Rhoi adborth am eich pecyn profi neu adrodd am niwed

Os oes unrhyw ran o’ch pecyn prawf wedi ei ddifrodi neu ar goll, peidiwch â defnyddio’r pecyn profi hwnnw. Gallwch ddal i ddefnyddio’r pecynnau profi eraill yn y pecyn.


Os ydych chi wedi cael niwed neu wedi cael adwaith wrth ddefnyddio’r profi hwn, adroddwch amdano. I roi adborth am eich pecyn profi, neu adrodd eich bod wedi’ch niweidio, ewch i:
**gov.uk/covid-19-test-feedback**

Neu ffoniwch **119** (am ddim o ffonau symudol a’r llinellau tir). Mae’r llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm. Mae **119** yn darparu cynnig cefnogaeth mewn 200 o ieithoedd, yn ogystal ag Iaith Arwyddion Prydain.

Mae’r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5


# Paratoi eich prawf

| | |
|---|---|
| **Pwysig** | Gwiriwch y dyddiad defnyddio erbyn ( ⌛ ) wedi ei argraffu ar y pecyn wedi'i selio. Peidiwch â defnyddio'r ddyfais brofi wedi ei ddyddiad defnyddio olaf. |





**4** Tynnwch y casét prawf o'r pecyn wedi'i selio a'i osod ar yr arwyneb gwastad glân.

**Rhybudd** Pan fyddwch wedi'i agor, dechreuwch y prawf o fewn 30 munud.





**5** Cadwch y tiwb byffer echdynnu i ffwrdd o'ch wyneb, gan dynnu'r ffilm selio ar y tiwb yn ofalus i osgoi arllwys unrhyw hylif.

**Rhybudd** Os bydd yr hylif yn y tiwb byffer echdynnu yn mynd ar y croen neu i'r llygaid, golchwch ar unwaith a cheisio cymorth meddygol os oes angen.




**6** Rhowch y tiwb byffer echdynnu yn y daliwr tiwb byffer echdynnu i osgoi arllwys y byffer.




**7** Dewch o hyd i'r swab untro yn y papur pacio a chwilio am y blaen meddal, ffabrig.

Peidiwch ag agor pecyn y swab ei hun nes y byddwch yn barod i'w ddefnyddio. Tynnwch y swab allan yn ofalus.




**8** Peidiwch â chyffwrdd y blaen ffabrig.

**Rhybudd** Peidiwch â chyffwrdd blaen meddal, ffabrig y swab neu bydd angen i chi gychwyn eto gyda swab newydd.

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5

# Gwneud prawf ar rywun arall



## Os ydych chi'n profi blant dan 12 oed


Dylai oedolyn brofi plant dan 12. Dilynwch y canllawiau ar sut i baratoi a phrofi plentyn neu berson sydd angen cymorth. Gallwch wylio fideo arddangos ar:
**gov.uk/covid19-self-test-help**



**Os ydych chi'n profi plentyn**, dangoswch y pecyn prawf iddynt a thrafod beth fyddwch chi'n ei wneud. Os yn bosibl, rhowch nhw i eistedd ar lin rhywun neu gael rhywun i ddal eu llaw. Gofynnwch i'r plentyn chwythu ei drwyn neu ei thrwyn mewn hances bapur. Rhowch yr hances bapur mewn bin a golchwch eich dwylo'n drylwyr am **20 eiliad**, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.



**9** Rhowch flaen ffabrig y swab yn ofalus i un o'i ffroenau nes byddwch yn teimlo rhywfaint o wrthiant.




**10** Trowch y swab 5 gwaith gan frwsio yn erbyn tu fewn y ffroen.

**11** Tynnwch y swab a rhoi'r un swab yn y ffroen arall. Ailadroddwch gam 9 a cham 10.

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5

# Cymryd eich sampl swab

| **Cyngor** | I gael y perfformiad gorau, rhowch y swab untro yn y tiwb byffer echdynnu cyn gynted â phosibl wedi swabio’r ffroenau. |
|---|---|






Chwythwch eich trwyn â hances bapur. Rhowch yr hances bapur mewn bin a golchwch eich dwylo'n drylwyr am **20 eiliad**, gan ddefnyddio sebon a dŵr cynnes, neu hylif diheintio dwylo.




**12** Rhowch flaen ffabrig cyfan y swab i mewn i un ffroen. Gan droi'n ofalus, gwthiwch y swab llai na 2.5 cm o ymyl y ffroen.

Gallai hyn deimlo'n anghyfforddus. Peidiwch â gosod y swab yn ddyfnach os teimlwch ei fod yn cyffwrdd â rhwystr neu’n peri poen.




**13** Trowch y swab 5 gwaith gan frwsio yn erbyn tu fewn y ffroen.


**14** Tynnwch y swab a rhoi’r un swab yn y ffroen arall. Ailadroddwch gam 12 a cham 13.

Mae’r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5


# Prosesu’r sampl swab

| **Rhybudd** | Peidiwch â gadael i’r prawf ddatblygu am fwy na 30 munud gan y bydd hyn yn gwneud y canlyniad yn annilys. |
|---|---|






**15** Codwch y tiwb byffer echdynnu a rhoi blaen ffabrig y swab yn y tiwb fel ei fod yn yr hylif. Gwasgwch y blaen yn erbyn ymyl y tiwb echdynnu, tra'n ei gylchdroi o amgylch y tiwb am 30 eiliad.
I gael y perfformiad gorau, rhowch y swab yn y tiwb byffer echdynnu cyn gynted â phosibl wedi swabio’r ffroenau.





**16** Trowch y swab 5 gwaith tra’n gwasgu ymyl y tiwb.
Mae hyn er mwyn trosglwyddo eich sampl i'r hylif.




**17** Gwasgwch y tiwb byffer echdynnu yn erbyn y swab wrth i chi dynnu’r swab allan. Gwnewch yn siŵr bod yr hylif i gyd yn cael ei dynnu allan o flaen meddal y swab.
Rhowch y swab yn y bag gwastraff a ddarperir.




**18** 18 Atodwch flaen y diferydd yn gadarn ar y tiwb byffer echdynnu. Cymysgwch yn drwyadl trwy droi neu fflicio gwaelod y tiwb.



**19** Sicrhewch fod y pecyn prawf ar arwyneb glân a gwastad. Peidiwch â symud y casét yn ystod y prawf.




**20** Gwasgwch y tiwb byffer echdynnu yn ofalus i roi 4 ddiferyn o'r hylif yn i'r ffynnon sbesimen (S) ar y casét profi.
Gwnewch yn siŵr eich bod yn gollwng hylif ac nid swigen aer.
Rhowch y tiwb byffer echdynnu yn y bag gwastraff a ddarparwyd.





**21** Gwiriwch yr amser a gosod amserydd. Arhoswch 15 munud cyn i chi ddarllen eich canlyniad. Darllenwch y canlyniad pan fydd yr amserydd yn cyrraedd 15-30 munud. Peidiwch â darllen wedi 30 munud.


Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5

# Darllen eich canlyniadau

## Os bydd eich canlyniad yn bositif




**Mae dwy linell yn ymddangos.**
Dylai un llinell lliw fod yn ardal y llinell reoli (**C**), a llinell lliw arall yn ardal y llinell brawf (**T**).




Mae dwy linell, un wrth ymyl **C** ac un wrth ymyl **T**, hyd yn oed os ydynt yn llinellau gwan, yn dangos bod canlyniad y prawf yn bositif.

Os cewch ganlyniad positif, gallech fod yn heintus iawn.

### Beth i'w wneud nesaf:


- Dilynwch y cyngor ar aros gartref ac osgoi cyswllt gyda phobl eraill **nhs.uk/stay-at-home**
- Adroddwch eich canlyniad (gweler tudalen 14 a dilyn y cyfarwyddiadau). Bydd y gwasanaeth adrodd canlyniadau yn rhoi'r canllaw diweddaraf i chi ar beth i'w wneud nesaf.
- Os yn bosibl, rhowch wybod i bobl rydych wedi bod mewn cysylltiad agos â nhw am eich canlyniad prawf positif.

### Beth sydd angen i eraill yn eich aelwyd ei wneud:

- Dylai pobl sy'n byw gyda chi ddilyn cyngor ar sut i osgoi dal a lledaenu COVID-19 ar: **nhs.uk/stay-at-home**

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5


## Os bydd canlyniad eich prawf yn negatif




Mae un llinell lliw yn ymddangos yn yr ardal llinell reoli (**C**). Does yna ddim llinell liw yn ymddangos yn y rhanbarth llinell brawf (**T**). Os byddwch yn cael canlyniad negatif, mae'n debygol nad oeddech chi'n heintus pan wnaed y prawf.


Fodd bynnag, nid yw canlyniad prawf negatif yn sicrwydd nad oes gennych COVID-19. Dylech chi a'ch aelwyd ddilyn cyngor ar sut i osgoi dal a lledaenu COVID-19 **nhs.uk/how-to-avoid-covid**

## Canlyniad annilys




**Mae rhoi gwybod am ganlyniadau negatif ac annilys yn helpu'r GIG i wybod faint o brofion sydd wedi eu defnyddio, ac os oes unrhyw broblemau gyda'r profion.**

Os nad yw'r llinell rheoli (**C**) yn ymddangos, neu dim ond un bar coch (**T**) sy'n ymddangos, mae'n golygu bod y prawf yn annilys.




**Os byddwch yn cael canlyniad annilys**, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i ni ddweud a oedd y feirws arnoch pan gynhaliwyd y prawf. I wirio os oes gennych chi'r coronafeirws, cymerwch brawf arall cyn gynted â phosibl.


**Peidiwch ag ail-ddefnyddio unrhyw beth** o'r pecyn profi a chychwynnwch weithdrefn y prawf o gam 1.

**Os yw'r broblem yn parhau**, stopiwch ddefnyddio'r pecynnau profi ar unwaith.
Os nad oes gennych chi brawf arall ar gael, gallwch gymryd gwahanol fath o brawf trwy:

- ymweld â **gov.uk/get-coronavirus-test**
- ffonio'r ganolfan gyswllt cwsmeriaid ar **119**.
  Mae'r llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm.

# Adrodd eich canlyniad

## Dylech adrodd am eich canlyniad positif, negatif neu annilys




Mae cofnodi canlyniad pob prawf yn helpu gwyddonwyr i nodi achosion newydd o'r firws a chynghori ar sut i ymateb.

Os mai dim ond canlyniadau positif a adroddir arnynt, mae lefelau achosion yn ymddangos i fod yn uwch nag ydynt mewn gwirionedd.

Felly hyd yn oed os yw'ch canlyniad yn **negatif** neu'n **annilys**, dylech sicrhau bod gwybodaeth y GIG yn gywir.

Mae angen y **cod QR** neu'r **rhif adnabod** sydd i adrodd eich canlyniad.

## Sut i adrodd am eich canlyniad




### Adrodd ar-lein (cyflymaf)

Os ydych yn byw yng Nghymru,
Lloegr neu Ogledd Iwerddon, ewch i:
**gov.uk/cofnodi-canlyniad-covid19**

Os ydych chi'n byw yn yr **Alban** ewch i:
**covidtest.scot**




### Adrodd dros y ffôn

Ffoniwch **119**
Mae llinellau ar agor bob dydd, rhwng 7am ac 11pm, (am ddim o ffonau symudol a llinellau tir)

## Symbolau a ddefnyddiwyd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwneuthurwr | | Cynhwysir digon ar gyfer <*n*> o brofion | 2°C – 30°C | Cyfyngiad tymheredd |
| IVD | Dyfais feddygol ddiagnostig *in vitro* | | Dyddiad defnyddio erbyn | | Peidiwch â'i ailddefnyddio |
| | Gweler y cyfarwyddiadau ar gyfer defnydd | LOT | Rhif lot | REF | Rhif catalog |
| EC REP | Cynrychiolydd awdurdodedig yn y Gymuned Ewropeaidd | | Dyddiad cynhyrchu | | Cadwch yn sych |
| | Peidiwch â defnyddio os yw'r pecyn wedi ei ddifrodi | STERILIZE | Peidiwch â'i ail-ddiheintio | | Cadwch allan o olau haul |
| STERILE EO | Diheintiwyd gan ddefnyddio ethylen ocsid | | Ailgylchadwy | | Rhybudd, dilynwch y cyfarwyddiadau |

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5

# Dim ond wedi i chi adrodd eich canlyniad fyddwch chi wedi cwblhau eich prawf



**Adroddwch ganlyniad eich prawf**

Ni chaniateir cyflenwi'r ddyfais hon ond fel rhan o waith Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) dan raglen Profi ac Olrhain y GIG.

**Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf)**

***ACON* Biotech (Hangzhou) Co., Ltd.**
No.210 Zhenzhong Road, West Lake District, Hangzhou, P.R. China (Gweriniaeth Pobl Tsieina), 310030
Gwefan: www.aconbio.com
E-bost: COVID19selftest@aconlab.com.cn

EC REP
MedNet EC-REP GmbH
Borkstrasse 10
48163 Muenster, Germany (yr Almaen)

CE 0123

**Swabiau Tafladwy**

**Jiangsu Changfeng Medical Industry Co., Ltd.**
Touqiao Town, Guangling District, Yangzhou 225109, Jiangsu, P.R. China (Gweriniaeth Pobl Tsieina)

EC REP
Llins Service & Consulting GmbH
Obere Seegasse 34/2, 69124
Heidelberg, Germany (yr Almaen)

CE 0197

**NEU**

**Jiangsu HanHeng Medical Technology Co., Ltd.**
16-B4, #1 North Qingyang Road, Tianning District, Changzhou, 213017 Jiangsu P.R. China (Gweriniaeth Pobl Tsieina)

EC REP
Luxus Lebenswelt GmbH
Kochstr.1, 47877, Willich, Germany (yr Almaen)

CE 0197

Fersiwn 1151414701 Dyddiad dod i rym 22/03/22
Mae'r holl wybodaeth a'r delweddau yn y ddogfen hon yn gywir ar ACON Biotech (Hangzhou) Co., Ltd.
Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf), Cod Cynnyrch: L031-118Y5.

Mae'r llyfryn cyfarwyddiadau hwn yn cyfeirio at ACON Flow*flex*™ Prawf Cyflym Antigenau SARS-CoV-2 (Hunan-brawf) yn unig, L031-118Y5